PECYN Y CONTRACTWR

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

## Pecyn C: Contractwyr | Rhan 3: Templed datganiad y dull lliniaru ar gyfer contractwyr

Cyfres Gwella Cartrefi

GREEN MAN ECOLOGY

Caru • Love Ceredigion

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy'n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn. Nid yw'r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:** Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

## CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

## CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

— Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

## CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

— Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
— Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

# CYNNWYS

**1 Y DULL LLINIARU .......... 1**
**1.1 Siarad â'r cyhoedd .......... 1**
**1.2 Strategaeth liniaru ar gyfer nodweddion y gallai bywyd gwyllt eu defnyddio .......... 1**
**1.3 Sgwrs y bocs tŵls .......... 2**
**1.4 Lles Anifeiliaid .......... 2**
**1.5 Archwilio'r mesurau lliniaru .......... 2**
**1.6 Gwelliannau o ran bioamrywiaeth .......... 2**

# 1 Y DULL LLINIARU

## 1.1 Siarad â'r cyhoedd

1.1.1 Ar ddechrau'r cynllun, bydd angen arddangos yr hysbysiad 'Cais Gwybodaeth i'r Cyhoedd' (Pecyn D, Rhan 4) yn swyddfa'r safle, mewn man cyhoeddus amlwg. Fe allwch chi hefyd arddangos yr hysbysiad hwnnw mewn unrhyw ddigwyddiadau lle'r ydych yn cysylltu â'r cyhoedd.

1.1.2 Mae angen annog pawb sy'n gwneud cais am IWA i hysbysu swyddfa'r safle os ydyn nhw'n gwybod am unrhyw ystlumod neu fannau lle mae adar yn nythu yn eu heiddo.

1.1.3 Bydd angen sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am IWA yn cael copi o'r ddogfen 'Gwybodaeth am rywogaethau a warchodir a blychau bywyd gwyllt' (Pecyn D, Rhan 5). Cofiwch gynnwys y ddogfen honno yn y pecyn gwybodaeth a gaiff ei ddosbarthu ar ddechrau'r cynllun. Bydd angen rhoi gwybod iddyn nhw bod y rhain yn ofynion ecolegol ar gyfer cynllun o'r fath, ac efallai y bydd angen cyflwyno mesurau lliniaru a gwneud gwelliannau ar yr eiddo. Bydd angen cynnwys yr wybodaeth honno yn yr wybodaeth gychwynnol, fel nad fydd pobl yn meddwl ei bod yn amod neu'n opsiwn ychwanegol. Cofiwch sicrhau eu bod yn cydsynio i dderbyn unrhyw fesurau o'r fath pan fyddan nhw'n cytuno i'r cynllun IWA.

## 1.2 Strategaeth liniaru ar gyfer nodweddion y gallai bywyd gwyllt eu defnyddio

1.2.1 Bydd yr ecolegydd yn paratoi adroddiad sy'n cynnwys manylion y mesurau lliniaru angenrheidiol. Bydd gofyn bod hwn yn cael ei lofnodi i ddangos bod rheolwr y safle wedi darllen a deall y gofynion.

1.2.2 Bydd yr ecolegydd wedi llanw Ffurflen Liniaru neilltuol (Pecyn D, Rhan 1) ar gyfer pob eiddo lle mae mesurau lliniaru'n ofynnol ar gyfer ystlumod (ac/neu adar). Mae'r ffurflen yn cynnwys rhestr o'r holl strategaethau lliniaru posib. Mae catalog o'r strategaethau lliniaru ym Mhecyn D, Rhan 3. Bydd yr ecolegydd yn nodi'r nodweddion sy'n ofynnol ar gyfer yr eiddo dan sylw (Pecyn D, Rhan 2).

1.2.3 Bydd rheolwr y safle a'r ecolegydd yn cytuno ynghylch y mesurau lliniaru 'parod' a fydd yn diogelu unrhyw dyllau, bylchau neu nodweddion y gallai ystlumod neu adar eu defnyddio (Pecyn C, Rhan 3). Bydd yr ecolegydd yn rhoi cyngor ynglŷn â'r mesurau sy'n briodol ar gyfer sefyllfa benodol neu eiddo penodol.

1.2.4 Os nad yw un o'r atebion parod yn addas, bydd rheolwr y safle'n trafod sut i ddiogelu'r nodwedd hwnnw, a bydd dull lliniaru'n cael ei lunio a fydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer yr eiddo dan sylw.

1.2.5 Os oes posibilrwydd bod yno ystlumod, bydd angen Trwydded Rhanddirymiad EPS ar gyfer Ystlumod, a fydd yn enwi rheolwr y safle fel y person dynodedig sy'n gyfrifol am ei gweithredu. Fe allai contractwyr fod mewn perygl o gyflawni trosedd o dan y gyfraith Ewropeaidd a chenedlaethol os na fyddan nhw'n rhoi'r mesurau lliniaru ar waith a'r drwydded yn ei sgil.

## 1.3 Sgwrs y bocs tŵls

1.3.1 Bydd yr holl gontractwyr/rheolwyr safle sy'n ymwneud â chynllun IWA yn trefnu bod yr ecolegydd yn rhoi sgwrs 'bocs tŵls', a fydd yn manylu ynglŷn â'r perygl i ystlumod/adar a phwysigrwydd y mesurau lliniaru [gweler Rhan 4 – Sgwrs 'Bocs Tŵls'].

## 1.4 Lles Anifeiliaid

1.4.1 Os bydd rhywun yn gweld/yn darganfod ystlumod pan nad yw'r ecolegydd ar y safle, bydd y contractwyr yn stopio gweithio, yn gorchuddio/sgrinio'r ystlum(od) eto ac yn cysylltu â'r ecolegydd (RHOWCH FANYLION CYSWLLT YR ECOLEGYDD / ECOLEGWYR YMA) i ofyn am gyfarwyddiadau. Os nad yw'n bosibl cysylltu â'r ecolegydd, cysylltwch â swyddog rhywogaethau a warchodir Cyfoeth Naturiol Cymru (0300 065 5235) neu linell gymorth yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod (BCT) 0345 1300 228 (sydd ar agor allan o oriau swyddfa yn ystod y tymor). Peidiwch â chyffwrdd â'r ystlumod am resymau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch personol.

1.4.2 Os caiff unrhyw ystlumod eu hanafu neu'u lladd yn ddamweiniol yn ystod y gwaith, rhowch wybod i'r ecolegydd ar unwaith. Rhowch gofnod o'r amgylchiadau i'r ecolegydd er mwyn adrodd i Gyfoeth Naturiol Cymru'n nes ymlaen.

1.4.3 Os bydd yr arolygon yn darganfod clwydfan famolaeth (magwrfa) ystlumod ar unrhyw adeg, bydd angen diogelu ardal y glwydfan (h.y. gwarchod yr ystlumod) a bydd y gwaith yn cael ei ohirio tan ryw adeg arall addas o'r flwyddyn. Efallai y bydd angen gwneud cais am drwydded EPS ar gyfer yr eiddo.

1.4.4 Os byddwch yn darganfod nyth aderyn yn yr eiddo, cysylltwch â'r ecolegydd i ofyn am gyngor. Stopiwch unrhyw waith ar y sgaffaldau neu'r waliau nes cewch chi gyngor a chyfarwyddiadau gan yr ecolegydd. Efallai y bydd angen i'r ecolegydd wneud archwiliad.

## 1.5 Archwilio'r mesurau lliniaru

1.5.1 Bydd rheolwr y safle'n trefnu bod yr ecolegydd yn cynnal archwiliad i sicrhau bod unrhyw fesurau lliniaru sydd wedi eu nodi mewn unrhyw adroddiadau ecolegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun wedi'u gweithredu, a hynny cyn tynnu'r sgaffald i lawr a chyn i'r contractwyr adael y safle. Bydd unrhyw fesurau lliniaru sydd heb eu gweithredu fel y cytunwyd yn cael eu hunioni. Efallai y bydd angen rhagor o fonitro yn ogystal.

## 1.6 Gwelliannau o ran bioamrywiaeth

1.6.1 Bydd yr ecolegydd yn dewis nifer o dai sy'n addas ar gyfer derbyn nodweddion gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys blychau adar ac/neu ystlumod. Dyw'r nodweddion gwella bioamrywiaeth ddim yn cymryd lle'r mesurau lliniaru. Bydd angen i reolwr y safle gael

caniatâd perchnogion yr eiddo cyn gosod unrhyw nodweddion sy'n perthyn i'r categori gwelliannau bioamrywiaeth. Efallai y bydd angen cyngor ar berchnogion yr eiddo er mwyn iddyn nhw benderfynu a ydyn nhw eisiau'r nodweddion gwella bioamrywiaeth ai peidio. Bydd angen sicrhau bod gan berchennog yr eiddo gopi o'r ddogfen 'Gwybodaeth am rywogaethau a warchodir a blychau bywyd gwyllt' (Pecyn D, Rhan 5). Fe allai rheolwr y safle roi perchennog yr eiddo'n mewn cysylltiad â'r ecolegydd hefyd.